Darllen

CYTGAN
Mae darllen yn hwyl, mae darllen yn sbri,
Yn y gwely, bath neu o gwmpas y tŷ,
Mae darllen yn hwyl, mae darllen yn sbri,
Cei sbort dim ots ble y darlleni di.

Straeon doniol sy'n gwneud i ni chwerthin,
Straeon arswyd sy'n gwneud i ni ddychryn,
Straeon ditectif sy'n gwneud i ni bendroni,
Straeon hapus sy'n gwneud i ni wenu.

RPT CYTGAN

Straeon antur, eu darllen sydd raid,
Hanes y gofod, neu'r deinosoriaid,
Straeon gwych sy'n llawn lledrith a llawn hud,
Straeon am fôr-ladron a thrysor drud.

RPT CYTGAN

© 2020 S4C